

# Y Sector Ffermio yng Nghymru Papur briffio

Gorffennaf 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 1100 142**

E-bost: **[Katie.Devenish@senedd.cymru](mailto:Katie.Devenish@senedd.cymru)**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#)** | **[Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Y Sector Ffermio yng Nghymru

## Papur briffio

Gorffennaf 2022

### Awdur:

Katie Devenish

Mae'r papur briffio hwn yn cyflwyno ystadegau allweddol ynghylch strwythur a chyfraniad economaidd y sector ffermio yng Nghymru.

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig yn cyhoeddi ystod o ddata amaethyddol. Mae'r rhain yn cynnwys **Arolwg Amaethyddol Mehefin**, yr **Arolwg o Fusnesau Ffermio** a'r **Cyfrifon Amaethyddol Cyfun**. Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi'r data hyn, gan gyflwyno ystadegau allweddol ynghylch strwythur a chyfraniad economaidd y sector ffermio yng Nghymru. Mae'n cymharu nodweddion amaethyddiaeth yng Nghymru â chenedloedd eraill y DU ac yn archwilio rhai newidiadau dros amser.



## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Ystadegau allweddol.....</b>	<b>2</b>
<b>3. Cyfraniad economaidd ffermio.....</b>	<b>3</b>
<b>4. Defnydd tir .....</b>	<b>8</b>
<b>5. Daliadau fferm.....</b>	<b>14</b>
<b>6. Incwm ffermydd .....</b>	<b>17</b>
<b>7. Allbynnau .....</b>	<b>20</b>
<b>8. Costau.....</b>	<b>23</b>
<b>9. Ffynonellau.....</b>	<b>24</b>

---

# 1. Cyflwyniad

Mae strwythur a chyfraniad economaidd amaethyddiaeth yn amrywio rhwng pedair gwlad y DU, yn dibynnu ar ffactorau fel daearyddiaeth, hinsawdd a thraddodiad.

Yng Nghymru, mae tir mynyddig, llethrau serth a llawer o law yn golygu bod **79 y cant** o dir wedi'i ddynodi'n Ardal Lai Ffatriol (ALFf), lle mae'r amodau heriol yn cyfyngu ar gynhyrchiant ac yn gwneud ffermio'n anoddach (ffigur 6). Ffermio gwartheg a defaid sydd fwyaf addas i'r amgylchedd hwn ac o'r herwydd mae'n dominyddu amaethyddiaeth yng Nghymru (ffigurau 9 a 12), ond mae'n cynhyrchu llai o incwm fferm ar gyfartaledd (ffigur 13). Mae'r mwyafrif o'r ffermydd yng Nghymru yn fach (llai nag 20 hectar) gyda nifer gymharol fach o ffermydd mawr o gymharu â'r Alban a Lloegr (ffigur 11).

Mae amaethyddiaeth yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban wedi'i strwythuro'n debyg i Gymru, gyda chyfran uchel o dir amaethyddol yn cael ei gyfrif yn ALFf ac yn cael ei ddefnyddio i bori da byw. Mae gan Gymru a Gogledd Iwerddon incwm fferm tebyg ac allbwn amaethyddol sy'n cael ei ddominyddu gan dda byw a chynhyrchion da byw. Yn Lloegr, mae'r tir mwy gwastad a'r hinsawdd yn gweddu orau i dyfu cnydau, sef y defnydd mwyaf o dir amaethyddol a'r allbwn mwyaf. Lloegr sydd â'r gyfran fwyaf o ffermydd mawr (dros 100 hectar) a'r incwm fferm cyfartalog mwyaf.

Mae amaethyddiaeth yng Nghymru gryn dipyn yn llai proffidiol fesul uned hectar nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ond yn fwy proffidiol nag yn yr Alban (ffigur 5). Mae llawer o ffactorau'n debygol o gyfrannu at y patrwm hwn, gan gynnwys:

- Dominyddiaeth ffermio gwartheg a defaid ar dir ALFf;
- Y nifer gymharol isel o ffermydd llaeth a thir â'r (ffigur 12) sydd **yn fwy proffidiol ar gyfartaledd**; a
- Y gyfran fawr o ffermydd bach: mae 55 y cant o holl ddaliadau fferm Cymru o dan 20ha.

## 2. Ystadegau allweddol

Dyma rai ystadegau allweddol sy'n cael eu hesbonio ymhellach a'u gosod yn eu cyd-destun yn y papur briffio hwn:

- Defnyddir 90 y cant o gyfanswm arwynebedd tir Cymru ar gyfer amaethyddiaeth.
- Mae 79 y cant o dir Cymru yn cael ei gyfrif fel ALFf. Mae hyn yn is na'r Alban (88 y cant) ond yn uwch na Lloegr (17 y cant) a Gogledd Iwerddon (67 y cant).
- Yn 2019, roedd y mesur o werth a gynhyrchwyd gan y sector amaethyddiaeth yn cyfrif am 0.7 y cant o gyfanswm y gwerth ychwanegol crynswth (GYC) yng Nghymru. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y DU. Cyfanswm yr Incwm o Ffermio (TIFF) yw cyfanswm yr elw o holl fusnesau ffermio Cymru ar sail blwyddyn galendr, ac yn 2020 amcangyfrifwyd ei fod yn £305 miliwn, sef yr isaf o bedair gwlad y DU.
- Mae amaethyddiaeth, pysgota a choedwigaeth yn cyfrif am 1.8 y cant o gyfanswm cyflogaeth Cymru, yr ail uchaf ar ôl Gogledd Iwerddon, ond mae nifer y gweithwyr amaethyddol yng Nghymru wedi gostwng ers 2015.
- Mae'r incwm fesul uned hectar o ffermio yng Nghymru yn sylweddol is nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ond yn uwch nag yn yr Alban.
- Mae amaethyddiaeth Cymru yn cael ei dominyddu gan dda byw. Defnyddir 86 y cant o dir amaethyddol Cymru ar gyfer pori, ac mae da byw a chynnyrch da byw yn cyfrif am 81 y cant (£1.4 biliwn) o allbwn amaethyddol crynswth.
- Ffermio gwartheg a defaid ar dir ALFf yw'r math mwyaf cyffredin o fferm yng Nghymru, gan gyfrif am 25 y cant o'r holl ffermydd. Mae mwyafrif y ffermydd (55 y cant) yn fach, o dan 20 ha.
- Mae cnydau a garddwriaeth yn gyfran fach iawn o amaethyddiaeth yng Nghymru o gymharu â gwledydd eraill y DU, gan gyfrif am 2 y cant o'r holl ffermydd a 6 y cant o'r allbwn amaethyddol crynswth.
- £34,300 oedd Incwm Fferm Cyfartalog yng Nghymru yn 2020-2021, sef yr isaf o bedair gwlad y DU. Ar gyfartaledd, daw 67 y cant o incwm ffermydd Cymru o gymorthdaliadau (57 y cant o daliadau uniongyrchol a 10 y cant o daliadau amaeth-amgylcheddol).
- Mae arwynebedd y coetir ar ddaliadau fferm wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf.

### 3. Cyfraniad economaidd ffermio


#### Cyfraniad amaethyddiaeth i economïau gwledydd y DU

Mae ffigur 1 yn dangos cyfran amaethyddiaeth o werth ychwanegol crynswth (GYC) mewn prisiau sylfaenol cyfredol yn 2019 ar gyfer pedair gwlad y DU a'r DU gyfan. Mae GYC yn mesur cyfraniad sector i'r economi; mae'n cynrychioli allbwn crynswth (gwerth) cynhyrchion cynradd llai defnydd canolraddol (costau). Nid yw'n cynnwys cymorthdaliadau ffermio nac allbwn o brosesu eilaidd.

Yng Nghymru, cyfrannodd amaethyddiaeth tua 0.7 y cant o'r GYC cenedlaethol yn 2019. Mae hyn yn uwch na chyfran y sector o GYC yn y DU ac yn Lloegr (0.5 y cant ill dwy), ond yn is na'r Alban (0.9 y cant) a Gogledd Iwerddon (1.3 y cant).

£470 miliwn oedd cyfanswm y GYC o amaethyddiaeth Cymru yn 2019. Mae hyn yn is na Gogledd Iwerddon (£586 miliwn), yr Alban (£1,366 miliwn) a Lloegr (£7,824 miliwn).

**Ffigur 1: Cyfran amaethyddiaeth o Werth Ychwanegol Crynswth Cenedlaethol (GYC) yn 2019.**



Ffynhonnell: Cyfrifon Amaethyddol Cyfun **y DU, Lloegr, yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon, Gwerth ychwanegol crynswth yn ôl ardal a chydran**

<sup>1</sup> Mae prisiau sylfaenol yn cynnwys cymorthdaliadau penodol ar gynhyrchion ond nid cymorthdaliadau amaethyddol cyffredinol fel taliadau uniongyrchol neu daliadau amaeth-amgylcheddol. Yn 2019, roedd cymorthdaliadau cynnyrch yn cael eu cynnig ar gyfer cig eidion yr Alban yn unig.

Mesur arall o gyfraniad economaidd amaethyddiaeth yw Cyfanswm yr Incwm o Ffermio (ffigur 2). Mae hyn yn cynrychioli elw busnes a thâl am waith a wneir gan weithwyr di-dâl (h.y. ffermwyr). Mae'n fesur mwy cynhwysfawr, gan gynnwys incwm o gynhyrchu amaethyddol, cymorthdaliadau ffermio ac arallgyfeirio, llai colledion drwy ddefnyddio cyfalaf sefydlog (e.e. mewn adeiladau, offer a da byw). Fel y cyfryw, Cyfanswm yr Incwm o Ffermio yw'r dull a ffefrir ar gyfer mesur incwm cyfun y diwydiant amaethyddol, gan gydymffurfio ag egwyddorion cyfrifyddu cenedlaethol y cytunir arnynt yn rhyngwladol.

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir mai £305 miliwn oedd Cyfanswm yr Incwm o Ffermio yng Nghymru yn 2020.

**Ffigur 2: Cyfanswm yr Incwm o Ffermio yn 2020 fesul gwlad (miliynau £)**



Ffynhonnell: Cyfrifon Amaethyddol Cyfun [Lloegr](#), [yr Alban](#), [Cymru](#), [Gogledd Iwerddon](#)

## Cyfraniad amaethyddiaeth i gyflogaeth yng ngwledydd y DU

Mae ffigur 3 yn dangos nifer y bobl sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth yn 2015 a 2021 ym mhedair gwlad y DU. Dewiswyd 2015 fel y flwyddyn llinell sylfaen oherwydd gwahaniaethau yn y fformat casglu data mewn blynyddoedd cynharach. Ystadegau 2021 yw'r diweddaraf a gyhoeddwyd.

Yng Nghymru, roedd 50,401 o bobl yn gweithio ym maes amaethyddiaeth yn 2021. Mae 75 y cant o'r rhain yn ffermwyr, partneriaid busnes, cyfarwyddwyr




a phartneriaid priod. Mae'r 25 y cant sy'n weddill yn weithwyr cyflogedig, gan gynnwys gweithwyr cyflogedig rheolaidd, rheolwyr a gweithwyr achlysurol. Bu gostyngiad o 13.6 y cant yn nifer y bobl sy'n gweithio ym myd amaethyddiaeth yng Nghymru rhwng 2015 a 2021, yn sgil colli 4,252 o weithwyr cyflogedig rheolaidd, rheolwyr cyflogedig a gweithwyr achlysurol a 3,666 o ffermwyr, partneriaid busnes, cyfarwyddwyr a phartneriaid priod.

O gymharu, roedd cynnydd yn nifer y gweithwyr amaethyddol yn yr Alban (+3.1 y cant) a Gogledd Iwerddon (+8.8 y cant) dros yr un cyfnod, gan ostwng i raddau llai yn Lloegr (-2.4 y cant). Lloegr sydd â'r gweithlu amaethyddol mwyaf, yn cynnwys 297,418 o bobl, gyda'r gyfran fwyaf o weithwyr cyflogedig rheolaidd, rheolwyr cyflogedig a gweithwyr achlysurol (40 y cant) o'r pedair gwlad.

Yng Nghymru, roedd 1.8 y cant o'r gweithlu cenedlaethol yn cael ei gyflogi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth neu bysgota ym mis Mawrth 2022. Mae'r gyfran hon yn uwch nag yn Lloegr (0.8 y cant) a'r Alban (1.6 y cant), ond yn is nag yng Ngogledd Iwerddon (3 y cant).

### Ffigur 3: Gweithlu amaethyddol yn 2015 a 2021 yn ôl gwlad a math o weithiwr




Ffynhonnell: [Arolwg Amaethyddol Mehefin y DU](#)

## Cyfran gwledydd y DU o arwynebedd ac incwm amaethyddol y DU

Mae ffigur 4 yn dangos y gyfran o dir amaethyddol y DU a Chyfanswm yr Incwm o Ffermio yn 2020 fesul gwlad. Cymru sydd â 10 y cant o dir amaethyddol y DU ond mae'n cyfrannu dim ond 6 y cant o Gyfanswm yr Incwm o Ffermio yn y DU. Mewn cyferbyniad, Gogledd Iwerddon sydd â 6 y cant o dir amaethyddol y DU ond mae'n darparu 9 y cant o Gyfanswm yr Incwm o Ffermio yn y DU. Lloegr sydd â 51 y cant o dir amaethyddol y DU ac mae'n cyfrannu 68 y cant o gyfanswm yr incwm. Yr Alban sydd â 33 y cant o dir amaethyddol y DU ond mae'n darparu dim ond 15 y cant o gyfanswm yr incwm.

**Ffigur 4: Cyfran o arwynebedd tir amaethyddol y DU a Chyfanswm Incwm o Ffermio fesul gwlad yn 2020.**



Ffynhonnell: [Arolwg Amaethyddol Mehefin](#), Cyfrifon Amaethyddol Cyfun [Lloegr](#), [yr Alban](#), [Cymru](#), [Gogledd Iwerddon](#)


<sup>1</sup>Yn cyfeirio at gyfanswm yr arwynebedd amaethyddol a adroddwyd yn Arolwg Amaethyddol Mehefin 2020. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys tir pori comin.

<sup>2</sup>Cyfanswm yr Incwm o Ffermio ar gyfer 2020. Nid 100% yw cyfanswm amcangyfrifon o gyfran Cyfanswm yr Incwm o Ffermio yn y DU fesul gwlad yn y cylch mewnol. Y rheswm am hyn yw bod Cyfanswm yr Incwm o Ffermio yn y DU a Lloegr wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar, tra mai amcangyfrifon dros dro cyntaf yw'r rhai ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o hyd.

Mae ffigur 5 yn dangos mai'r hyn sy'n gyfrifol am gyfraniad anghymesur Lloegr a Gogledd Iwerddon i Gyfanswm yr Incwm o Ffermio yn y DU (sy'n fwy na'u cyfran o dir amaethyddol) yw bod amaethyddiaeth yn cynhyrchu llawer mwy o incwm fesul uned arwynebedd (Cyfanswm yr Incwm o Ffermio fesul hectar) yn y gwledydd hyn nag yng Nghymru neu'r Alban. Yn 2020, roedd hectar o dir amaethyddol yng Ngogledd Iwerddon yn darparu 2.6 gwaith yn fwy o incwm, ar gyfartaledd, na hectar o dir amaethyddol yng Nghymru, a 3.4 gwaith yn fwy nag yn yr Alban.

Rhwng 2015 a 2020, fe wnaeth Cyfanswm yr Incwm o Ffermio fesul hectar gynyddu 31 y cant yn Lloegr, 32 y cant yn yr Alban, 62 y cant yng Nghymru a mwy na dyblu yng Ngogledd Iwerddon (er nad yw'r ffigurau hyn yn cyfrif am chwyddiant). Ceir hefyd amrywioldeb sylweddol mewn incwm amaethyddol rhwng blynyddoedd, gyda Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gweld mwy o amrywioldeb na Chymru a'r Alban.

**Ffigur 5: Cyfanswm yr Incwm o Ffermio fesul hectar (heb ei addasu ar gyfer chwyddiant)<sup>1</sup> 2015 - 2020 yn ôl gwlad**



Ffynhonnell: [Arolwg Amaethyddol Mehefin](#), Cyfrifon Amaethyddol Cyfun [Lloegr, yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon](#)

<sup>1</sup> Mynegir gwerthoedd mewn termau cyfredol sy'n golygu nad yw'r newid dros dro amser yn cyfrif am effaith chwyddiant. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer 2020 yn rhai dros dro a gallant newid yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyfrifwyd Cyfanswm yr Incwm o Ffermio fesul hectar drwy ei rannu â chyfanswm yr arwynebedd amaethyddol.

## 4. Defnydd tir


### Ardaloedd Llai Ffatriol

Mae 79 y cant o holl dir Cymru yn cael ei gyfrif fel Ardal Lai Ffatriol (ALFf). Mae'r **dynodiad UE** hwn yn cyfeirio at ardaloedd lle mae amodau daearyddol, pridd neu hinsawdd yn cyfyngu ar gynhyrchiant ac yn gwneud ffermio yn anoddach. Yng Nghymru, mae hyn yn adlewyrchu tir mynyddig, llethrau serth ar ffermydd yr ucheldir a llawer o law.

Mae Ardaloedd Llai Ffatriol wedi'u rhannu'n Ardaloedd dan Anfantais Fawr, sy'n fwy heriol yn amgylcheddol ac ar yr ucheldir yn bennaf, ac yn Ardaloedd dan Anfantais. Mae tua 56 y cant o'r tir yng Nghymru yn cael ei gyfrif fel bod yn Ardal dan Anfantais Fawr, ac mae 23 y cant yn Ardal dan Anfantais.

Mae cyfran y tir sydd wedi'i ddynodi'n ALFf yng Nghymru yn is na'r Alban (88 y cant) ond yn uwch na Lloegr (17 y cant) a Gogledd Iwerddon (67 y cant).

**Ffigur 6: Map o Ardaloedd Llai Ffatriol (ALFf) yn dangos cyfran y tir amaethyddol sy'n cael ei gyfrif yn ALFf fesul gwlad.**




## Tir amaethyddol a ddefnyddir

Mae ffigur 7 yn dangos bod 92 y cant o gyfanswm arwynebedd tir amaethyddol Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu amaethyddol yn 2021. Mae hyn yn uwch na'r Alban ond yn is na Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Fe wnaeth cyfran cyfanswm y tir amaethyddol oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu amaethyddol aros yn sefydlog ar y cyfan yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon rhwng 2011 a 2021. Fodd bynnag, fe wnaeth ostwng o bedwar pwynt canran yng Nghymru, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn coetir ar ddaliadau fferm (ffigur 8). Rhwng 2011 a 2021, fe wnaeth y coetir ar ffermydd Cymru gynyddu o **44,200 i 124,300 hectar**. Mae'n bwysig nodi bod amrywioldeb sylweddol yn y data rhwng 2010 a 2012 o ystyried bod yr amcangyfrif cenedlaethol yn seiliedig ar is-sampl ac felly nad yw'r union gynnydd hwn yn gywir o bosibl. Serch hynny, mae'r data cyfres amser yn dangos bod arwynebedd y coetir ar ddaliadau fferm yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf.

**Ffigur 7: Cyfran cyfanswm y tir amaethyddol<sup>1</sup> oedd yn cael ei gyfrif fel ei fod yn cael ei ddefnyddio<sup>2</sup> yn ôl blwyddyn (2011-2021) ac yn ôl gwlad**



Ffynhonnell: **Arolwg Amaethyddol Mehefin y DU**

<sup>1</sup> Mae cyfanswm y tir amaethyddol yn cynrychioli'r holl dir ar ddaliadau amaethyddol ynghyd â thir pori garw comin. Mae hyn yn cynnwys coetir a thir arall ar ddaliadau amaethyddol (fel adeiladau) nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol.

<sup>2</sup> Mae tir amaethyddol a ddefnyddir yn cyfeirio at dir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddol yn unig. Mae'n cynnwys tir pori garw comin, cyfanswm arwynebedd cnydau (gan gynnwys tir braenar), glaswelltir dros dro a pharhaol a thir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer moch. Nid yw'n cynnwys coetir neu dir arall nas defnyddir at ddibenion amaethyddol.

### Ffigur 8: Cyfran cyfanswm y tir amaethyddol yng Nghymru a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer coetir a defnyddiau tir anamaethyddol eraill 2011-2021<sup>1</sup>



Ffynhonnell: [Arolwg Amaethyddol Mehefin Cymru](#), [Arolwg Amaethyddol Mehefin y DU](#)

<sup>1</sup> Mae data ar arwynebedd 'tir anamaethyddol arall' ar goll ar gyfer 2020.

### Mathau o ddefnydd tir amaethyddol


Mae tir amaethyddol Cymru yn cael ei ddominyddu gan laswelltir parhaol (hawliau unigol) a ddefnyddir i bori da byw (ffigur 9). Mae hyn yn cwmpasu **1.4 miliwn hectar** o dir yng Nghymru ac yn cyfrif am 76 y cant o arwynebedd amaethyddol Cymru a ddefnyddir (a 67 y cant o **gyfanswm arwynebedd tir** Cymru). Ceir **252,000** hectar o dir cnwd yng Nghymru (14 y cant o'r arwynebedd amaethyddol sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru) a 180,000 hectar o dir pori garw comin (10 y cant). Yn gyfan gwbl, mae'r tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pori da byw (glaswelltir parhaol â hawliau unigol ynghyd â thir pori garw comin) yn cyfrif am 86 y cant o dir amaethyddol Cymru. Mae hyn yr un fath ag yn yr Alban ond yn uwch na Gogledd Iwerddon (82 y cant) a Lloegr (45 y cant).

Mae 80 y cant o dir cnwd y DU yn Lloegr, lle ceir mwy o iseldir (gweler ffigur 6)

a hinsawdd sy'n fwy ffafriol ar gyfer tyfu cnydau. O ganlyniad, mae defnydd tir amaethyddol wedi'i rannu'n fwy cyfartal yn Lloegr lle mae 55 y cant o'r tir yn cael ei ddefnyddio i dyfu cnydau a 45 y cant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pori.

Yr Alban sydd â'r arwynebedd mwyaf o laswelltir parhaol a thir pori garw cyffredin o blith pedair gwlad y DU ac mae ganddi 12 y cant o dir cnwd y DU.

**Ffigur 9: Arwynebedd y mathau o ddefnydd tir amaethyddol yn ôl gwlad yn 2021.**



Ffynhonnell: [Arolwg Amaethyddol Mehefin y DU](#)


## Da byw

Mae'r mwyafrif o wartheg (53 y cant), defaid (44 y cant), moch (80 y cant) a dofednod (74 y cant) y DU yn cael eu cadw yn Lloegr. Mae 29 y cant o ddefaid y DU yn cael eu cadw yng Nghymru a 21 y cant yn yr Alban. Ychydig iawn o foch sy'n cael eu cadw yng Nghymru. Mae gan Ogledd Iwerddon a'r Alban gyfran gyfartal yn fras o stoc gwartheg y DU (17-18 y cant). Mae 12 y cant o wartheg y DU yn cael eu cadw yng Nghymru.

Dofednod yw'r gyfran fwyaf o anifeiliaid (wrth ystyried nifer yr anifeiliaid) ym mhob un o'r pedair gwlad. Ar ôl dofednod (49 y cant), defaid yw'r math mwyaf cyffredin o anifeiliaid yng Nghymru (45 y cant), ac yna gwartheg (5 y cant). Yn 2021, roedd 10.4 miliwn o ddofednod, 9.5 miliwn o ddefaid, 1.1 miliwn o wartheg a 27,000 o foch yng Nghymru.



**Ffigur 10: Cyfran yn ôl gwlad o gyfanswm anifeiliaid da byw y DU yn ôl math o dda byw**



Ffynhonnell: **Arolwg Amaethyddol Mehefin y DU**

## 5. Daliadau fferm


### Maint fferm

Dengys ffigur 11 mai ffermydd bach (llai nag 20 hectar) yw'r maint fferm mwyaf cyffredin ym mhob un o'r pedair gwlad. Yng Nghymru a'r Alban, mae dros 50 y cant o'r holl ffermydd yn rhai bach, ac eto maent yn cyfrif am 3 y cant a 7 y cant yn unig o gyfanswm yr arwynebedd a ffermir, yn y drefn honno. Mae gweddill y ffermydd yng Nghymru wedi'u dosbarthu'n gymharol gyfartal ar draws categorïau maint: mae 18 ohonynt yn rhai 20-50 hectar, mae 14 y cant ohonynt yn rhai 50-100 hectar ac mae 14 ohonynt dros 100 hectar. Mae hyn yn wahanol i Ogledd Iwerddon sydd â chyfran fawr o ffermydd 20-50 hectar, a Lloegr a'r Alban, sydd â chyfrannau uwch o ffermydd dros 100 hectar.

Lloegr sydd â'r nifer fwyaf (24,882) a'r gyfran fwyaf (24 y cant) o'i ffermydd dros 100 ha, ac yna'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon (yn y drefn honno).

Maint cyfartalog fferm yng Nghymru yw 48 hectar, sydd ychydig yn uwch na Gogledd Iwerddon (40 hectar), ond yn sylweddol is na Lloegr (85 hectar) a'r Alban (117 hectar). Mae'r nifer gymharol fach o ffermydd mawr dros 100 hectar yn cwmpasu arwynebedd sylweddol o dir, gan godi maint cyfartalog y fferm. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr Alban, lle mae 18 y cant o ffermydd (y rhai dros 100 hectar) yn cyfrif am 88 y cant o gyfanswm yr arwynebedd a ffermir.

**Ffigur 11: Dadansoddiad o ddaliadau fferm cenedlaethol yn ôl maint fferm yn 2021**



Ffynhonnell: **Amaethyddiaeth yn y DU, 2021**


## Math o ffermydd yng Nghymru

Yn 2020, roedd **24,677** o ddaliadau fferm yng Nghymru.

Pori gwartheg a defaid ar dir ALFf oedd y math mwyaf cyffredin o fferm (ac eithrio ffermydd bach iawn heb eu gwahaniaethu), gan gyfrif am 25 y cant (6,287) o'r holl ffermydd. Dilynwyd hyn gan ffermydd llaeth, sy'n cyfrif am 6 y cant (1,469), a thir pori iseldir, sy'n cyfrif am 5 y cant (1,176) o'r holl ffermydd. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu dominyddiaeth tir ALFf yng Nghymru (ffigur 6).

Dim ond 551 o ffermydd yng Nghymru sy'n ymroi i dyfu cnydau a garddwriaeth, sef 2 y cant o'r holl ffermydd. Mae 2 y cant arall o ffermydd yn rhai cymysg.

### Ffigur 12: Daliadau fferm Cymru' yn ôl math 2020



Ffynhonnell: **Ffeithiau a Ffigurau Ffermio 2021**

<sup>1</sup> Mae hyn yn cyfeirio at gyfran cyfanswm y daliadau fferm (24,677), nid yr arwynebedd a ffermir.

\*Mae ffermydd bach iawn yn cael eu grwpio gyda'i gilydd ni waeth beth fo'r math o fferm. Ffermydd bach iawn yw'r rhai sydd â gofyniad llafur o lai nag 1 Cyfwerth ag

Amser Llawn.

Mae pori ALFf yn cael ei rannu ymhellach yn categorïau Ardal dan Anfantais Fawr ac Ardal dan Anfantais. Mae ffermydd gwartheg a defaid ar dir Ardal dan Anfantais Fawr ac Ardal dan Anfantais yn cyfrif am 18 y cant ac 8 y cant o'r holl ffermydd yn y drefn honno.

## 6. Incwm ffermydd


Mae Incwm Busnesau Fferm yn cynrychioli'r elw ariannol o'r holl lafur di-dâl (h.y. ffermwyr, partneriaid busnes a theulu) ac o'i holl gyfalaf sydd wedi'i fuddsoddi ym musnes y fferm. Mae'n cynnwys incwm o gynhyrchu amaethyddol, cymorthdaliadau a gweithgareddau arallgyfeirio, ond nid yw'n cynnwys incwm a gynhyrchir o'r tu allan i fusnes y fferm (e.e. cyflogaeth oddi ar y fferm). Mae Incwm Busnesau Fferm yn ei hanfod yr un fath ag elw net.

Dengys ffigur 13 mai ffermydd yng Nghymru ar gyfartaledd yw'r lleiaf proffidiol o bedair gwlad y DU. £34,300 yw'r Incwm Busnesau Fferm Cyfartalog ar gyfer pob math o fferm yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â £34,402 yng Ngogledd Iwrddon, £39,347 yn yr Alban, a £51,900 yn Lloegr.

Ym mhob un o'r pedair gwlad, ffermydd llaeth yw'r math mwyaf proffidiol o fferm o'r rhai a restrir, a hynny o gryn dipyn. £60,200 yw'r Incwm Busnesau Fferm Cyfartalog ar gyfer ffermydd llaeth yng Nghymru, er bod hyn yn is nag yng Ngogledd Iwerddon (£62,758), Lloegr (£92,500) a'r Alban (£99,637).

Ffermio gwartheg a defaid ar dir isel yw'r math lleiaf proffidiol o fferm yn Lloegr (£18,400) a Chymru (£22,900), a ffermydd gwartheg a defaid ar dir ALFf yw'r math lleiaf proffidiol o fferm yng Ngogledd Iwerddon (£20,454) a'r Alban (£28,772). Mae incwm cyfartalog ffermydd gwartheg a defaid, ar dir isel ac ALFf fel ei gilydd, yn is na'r incwm cyfartalog cenedlaethol ym mhob un o'r pedair gwlad.

### Ffigur 13: Incwm Busnesau Fferm Cyfartalog<sup>1</sup> 2020-2021 yn ôl gwlad a math o fferm



Ffynhonnell: Arolwg Busnes Fferm Lloegr, yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon

\*Mae pob math o fferm yn cynnwys y rhai a restrir ynghyd â ffermydd grawn, cnydau cyffredinol a chymysg ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban. Yn Lloegr, mae hyn hefyd yn cynnwys ffermydd moch, ffermydd dofednod a garddwriaeth. Yng Ngogledd Iwerddon, mae pob fferm yn cynnwys y rhai a restrir ynghyd â ffermydd grawn, moch a chymysg.

\*\*ALIFf = Ardaloedd Llai Ffafirol (gweler ffigur 6)

<sup>1</sup> Daw'r data hyn o sampl cynrychioliadol o ffermydd a gwblhaodd yr Arolwg Busnes Fferm. Nid yw'r arolwg hwn yn cynnwys ffermydd sydd ag Allbwn Safonol o lai na €25,000, felly nid yw'r canlyniadau'n gynrychioliadol o ddaliadau bach iawn neu ran-amser.


Mae ffigur 14 yn dangos Incwm Busnesau Fferm Cyfartalog 2020-2021 ar gyfer gwahanol fathau o ffermydd yng Nghymru, wedi'i ddadansoddi yn ôl ffynhonnell incwm. Ar gyfartaledd ar draws holl ffermydd Cymru, dim ond 20 y cant o'r incwm a ddaw o gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau amaethyddol. Daw 57 y cant o daliadau sylfaenol, 10 y cant o daliadau amaeth-amgylcheddol a 12% o weithgareddau arallgyfeirio (**fel gosod adeiladau, twristiaeth neu gynhyrchu ynni adnewyddadwy**). **Taliadau sylfaenol a thaliadau amaeth-amgylcheddol** yw cymorthdaliadau'r llywodraeth sy'n darparu cymorth incwm i ffermwyr i gynnal cystadleurwydd, diogelu rhag anwadalrwydd prisiau, a diogelu sicrwydd bwyd. Mae taliadau amaeth-amgylcheddol yn digolledu ffermwyr am fabwysiadu technegau

ffermio mwy amgylcheddol gyfeillgar.

Mae ffermio gwartheg a defaid ALFf yn gwbl ddibynnol ar incwm o gymorthdaliadau (taliadau sylfaenol a thaliadau amaeth-amgylcheddol) ac arallgyfeirio, gan nad yw ffermio yn broffidiol ar dir ALFf (mae cynhyrchiant amaethyddol yn cynhyrchu colled net gyfartalog o £700 y flwyddyn). Ar gyfer y ffermydd hyn, mae cymorthdaliadau'n darparu 88 y cant o incwm cyfartalog y fferm. Er bod ffermio gwartheg a defaid ar dir isel yn broffidiol, dim ond 25 y cant o incwm cyfartalog y mae cynhyrchiant amaethyddol yn ei gyfrannu. Mae'r ffermydd hyn hefyd yn ddibynnol iawn ar gymorthdaliadau ac arallgyfeirio, er bod cyfraniad taliadau amaeth-amgylcheddol yn is na'r cyfartaledd ar gyfer pob math o fferm.

Mewn cyferbyniad, daw'r rhan fwyaf (69 y cant) o incwm ffermydd llaeth o gynhyrchu. Mae cymorthdaliadau'n cyfrif am 28 y cant o incwm cyfartalog.

### Ffigur 14: Incwm Busnesau Fferm Cyfartalog yng Nghymru 2020-2021 yn ôl math o fferm a ffynhonnell incwm



Ffynhonnell: **Incymau Fferm 2020-2021**

\*ALFf = Ardaloedd Llai Ffagriol (gweler ffigur 6)

## 7. Allbynnau

Mae allbwn crynswth yn cyfeirio at gyfanswm gwerth yr holl gynnyrch neu wasanaethau a gynhyrchir gan fusnesau fferm ym mhob gwlad. Nid yw'n cynnwys incwm o'r cymorthdaliadau ffermio a ddisgrifir uchod, ond mae'n cynnwys cymorthdaliadau cynnyrch (dim ond un – ar gyfer **cig eidion yr Alban**). Yng Nghymru, £1.7 biliwn oedd cyfanswm yr allbwn amaethyddol crynswth yn 2020. Dyma'r isaf o bedair gwlad y DU (ffigur 15). O hyn, daeth 48 y cant (£817 miliwn) o dda byw, 34 y cant (£580 miliwn) pellach o gynnyrch da byw, 12 y cant (£202 miliwn) o ffynonellau eraill a dim ond 6 y cant (£96 miliwn) o gnydau a garddwriaeth.


Gwelir patrwm tebyg iawn yng Ngogledd Iwerddon, lle mae da byw a chynhyrchion da byw yn cyfrif am 83 y cant o gyfanswm allbwn crynswth amaethyddiaeth o £2.2 biliwn, ac mae cnydau a garddwriaeth yn cyfrif am 7 y cant. Yn yr Alban, mae'r allbwn wedi'i rannu'n fwy cyfartal, gyda da byw a chnydau a garddwriaeth i gyd yn cyfrif am oddeutu 33 y cant o gyfanswm yr allbwn. Yr allbwn o gynhyrchion da byw yr Alban yw'r isaf o bedair gwlad y DU.

Cymru sydd â'r allbwn crynswth isaf o gnydau a garddwriaeth, da byw, a chynhyrchion eraill o blith pedair gwlad y DU, a'r allbwn isaf ond un o gynhyrchion da byw ar ôl yr Alban.

Lloegr sydd â'r allbwn crynswth uchaf ar gyfer pob math o gynnyrch ac mae'n cyfrif am 85 y cant o gyfanswm allbwn cnydau a garddwriaeth y DU, 65 y cant o dda byw a 65 y cant o gynhyrchion da byw.



## Ffigur 15: Allbwn amaethyddol crynswth<sup>1</sup> yn ôl gwlad a math o gynnyrch yn 2020



Ffynhonnell: Cyfrifon Amaethyddol Cyfun **Lloegr, yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon**


<sup>1</sup>Yr holl werthoedd a adroddwyd ym mhrisiau 2020.

\*Mae eraill yn cynnwys troi cyfalaf yn dda byw, gweithgareddau amaethyddol eraill a gweithgareddau eilaidd na ellir eu gwahanu oddi wrth y busnes amaethyddol (e.e. twristiaeth neu brosesu pellach).

Mae allbwn da byw yr Alban yn cynnwys cymorthdaliadau cynnyrch ar gyfer cig eidion yr Alban.

Mae ffigur 16 yn dadgyfuno allbwn amaethyddol Cymru ymhellach i gymharu cyfraniad gwahanol fathau o dda byw a chynhyrchion da byw. Mae'n dangos mai llaeth a chynhyrchion llaeth sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf (37 y cant) o gynnyrch sy'n gysylltiedig â da byw, er gwaethaf y ffaith mai dim ond 6 y cant o'r holl ffermydd sy'n ffermydd llaeth. Mae gwartheg yn cyfrif am 32 y cant o gynnyrch sy'n gysylltiedig â da byw ac mae defaid yn cyfrif am 22 y cant.

**Ffigur 16: Allbwn crynswth da byw a chynhyrchion da byw yng Nghymru 2020 yn ôl math o gynnyrch.**




Ffynhonnell: **Cyfrifon Amaethyddol Cyfun Cymru.**

Mae gwerth gwllân wedi'i dorri yn fach iawn (£998,976) o'i gymharu â'r cynhyrchion eraill.

## 8. Costau

Mae ffigur 17 yn dangos y defnydd canolraddol (gwariant blynyddol) ar fewnbynau amaethyddol allweddol yng Nghymru rhwng 2015 a 2020. Mae gwariant ar y rhan fwyaf o fewnbynau wedi aros yn gymharol sefydlog dros y cyfnod hwn, ac eithrio bwydydd anifeiliaid a chostau ffermio eraill. Bwydydd anifeiliaid yw'r gost mewnbyn sengl fwyaf (gan gyfrif am 35 y cant o'r holl gostau mewnbyn yn 2020). Cynyddodd gwariant ar fwydydd anifeiliaid 15 y cant rhwng 2015 a 2020, er nad yw hyn yn cyfrif yn benodol am chwyddiant. Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw'r data hyn yn cyfrif am y newid yn nifer y ffermydd dros y cyfnod hwn, a allai fod wedi effeithio ar y galw am fewnbynau.

**Ffigur 17: Defnydd canolradd ar fewnbynau amaethyddol Cymru 2015-2020**



Ffynhonnell: **Cyfrifon Amaethyddol Cyfun Cymru**

<sup>1</sup> Nid yw'r data'n nodi a yw gwerthoedd wedi'u haddasu i gyfrif am effaith chwyddiant.

## 9. Ffynonellau

1. Cyfrifon Amaethyddol Cyfun
  - Lloegr
  - Yr Alban
  - Cymru
  - Gogledd Iwerddon
  - y DU
2. Amaethyddiaeth yn y DU 2021
3. Ffeithiau a Ffigurau Amaethyddiaeth 2019
4. Ffeithiau a Ffigurau Ffermio 2021
5. Incymau Fferm yng Nghymru 2020-2021
6. Arolygon Busnes Fferm:
  - Lloegr
  - Yr Alban
  - Cymru
  - Gogledd Iwerddon
7. Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl ardal
8. Arolwg Amaethyddol Mehefin
  - Cymru
  - Crynodeb y DU (data)
9. Ystadegau Marchnad Lafur Rhanbarthol